Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018-2019

## Hydref 2019

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


1 Trosolwg strategol 1

2 Cyflwyniad 2


2.1 Cyflwyniad a chefndir 2
2.2 Gofynion adrodd blynyddol 2
2.3 Ein Hamcanion Strategol a'n Hegwyddorion Cyflwyno 3

3 Cynnydd a gweithgareddau yn erbyn amcanion 5-20

4 Crynodeb 20

Atodiad 1 Erthyglau a ymddangosodd yng nghylchlythyr mewnol Estyn 21

# 1 Trosolwg strategol




Mae'r adran amdanom ni ar ein gwefan yn esbonio ymhellach y gwaith a wnawn o ran arolygiadau darparwyr addysg a hyfforddiant, darparu cyngor ac arweiniad, meithrin gallu a lledaenu arfer orau, a gweithio mewn partneriaeth ag arolygiaethau eraill.

# 2 Cyflwyniad

## 2.1 Cyflwyniad a chefndir

Y ddogfen hon yw'r trydydd Diweddariad Cynnydd Blynyddol yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) Estyn 2016-2020 ac mae'n cynnwys y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Mae'r CCS yn ategu Amcanion Cydraddoldeb Estyn ac yn amlinellu gwybodaeth allweddol am ein gweithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Yn ogystal â chyflawni ein dyletswydd dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae dyletswydd gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi 'ystyriaeth briodol' i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan y Ddeddf
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rheiny nad ydynt yn rhannu nodwedd
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodwedd

Mae'r CCS yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig sy'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef:

- oedran
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil (gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd)
- crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)
- rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

## 2.2 Gofynion adrodd blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn darparu gwybodaeth, fel sy'n ofynnol gan y Dyletswyddau Penodol ar gyfer Cymru, am y camau a gymerwyd gan Estyn i fodloni ei rwymedigaethau ar gyfer y cyfnod adrodd 2018-2019 dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sydd fel a ganlyn:

- y camau a gymerwyd gan Estyn i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut mae Estyn wedi defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau Estyn ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb Estyn

- datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd gan Estyn i gyflawni pob un o'i amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodedig am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a chyflog (oni bai ei fod wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon eisoes rywle arall)

Gallai Estyn gynnwys unrhyw fater arall yn ei adroddiadau blynyddol sydd, yn ei farn ef, yn berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol.

Gellir gweld y camau a gymerwyd yn ystod blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y CCS, sef 2016-2017 a 2017-2018, yn yr Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2017 ac Adolygiad Blynyddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-2018

## 2.3 Ein Hamcanion Strategol a'n Hegwyddorion Cyflwyno

Yn ein Cynllun Blynyddol 2018-2019, amlinellom y gweithgareddau allweddol ar gyfer y flwyddyn honno a oedd yn helpu i gyflawni ein cenhadaeth a'n hamcanion, ac a oedd yn adlewyrchu egwyddorion cyflwyno Estyn:

- Amcan Strategol 1: Darparu atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau darpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- Amcan Strategol 2: Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- Amcan Strategol 3: Meithrin gallu i gyflwyno'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru
- Egwyddor Cyflwyno 1: Datblygu Estyn yn sefydliad 'gwerth gorau' a 'chyflogwr enghreifftiol'
- Egwyddor Cyflwyno 2: Cydweithio ag arolygiaethau eraill i gefnogi gwelliant

Mae ymrwymiad Estyn i gyflawni dyletswydd Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi'i wreiddio o fewn yr amcanion a'r egwyddorion hyn. Mae'r CCS yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithredu ac ymgorffori gofynion y Ddeddf, sy'n hyrwyddo cymdeithas gyfartal ac amrywiol. Mae hefyd yn cadarnhau ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth, urddas a pharch fel y cânt eu hymgorffori o fewn egwyddorion Hawliau Dynol.

Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau gweithredu cytunedig i'w cymryd yn ystod blynyddoedd 2016-2020. Bydd angen cwblhau rhai o'r camau gweithredu unwaith yn unig yn ystod y cyfnod hwn, rhai ohonynt bob blwyddyn, a rhai pan fo'n briodol. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn ystod trydedd flwyddyn CCS 2016-2020, o ran camau gweithredu sy'n cefnogi'r amcanion yn y cynllun ac, fel y cyfryw, dylid ei ddarllen ar y cyd â'r CCS. Dangosir y camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2018-2019 yn Rhan 2 o dan bob amcan.

Trwy ein gweithgareddau, rydym yn ymdrechu i gynnal ac adeiladu ar yr ymrwymiadau a fynegir yn ein cynlluniau blaenorol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn ein holl swyddogaethau a gwasanaethau
- cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo amrywiaeth yn ein gweithle
- rhoi gwerth cadarnhaol ar amrywiaeth a chredu y gall gwahaniaethau yn ein gweithlu ychwanegu gwerth a'n gwneud yn gryfach, yn fwy hyblyg ac, yn y pen

draw, yn fwy abl i gyflwyno gwasanaethau arolygu a chyngor sy'n bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru
- gwneud yn siŵr nad oes unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth, cyflogai presennol neu ddarpar gyflogai neu ymgeisydd am swydd yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail unrhyw nodwedd warchodedig
- gwrthod goddef gwahaniaethu, erledigaeth, bwlio neu aflonyddwch, uniongyrchol neu anuniongyrchol, bwriadol neu anfwriadol, yn erbyn unrhyw un ar ba sail bynnag, gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r nodweddion gwarchodedig hynny a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl beth bynnag fo'u cefndir neu'u nodwedd, o fewn ein gweithlu ac yn y gymuned ehangach lle bo modd, er mwyn dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb

Mae Bwrdd Gweithredol a Grŵp Iechyd, Diogelwch, Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu Estyn yn monitro cynnydd yr amcanion a osodwyd yn y CCS ac yn ystyried materion sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Mae gan Estyn Gyfarwyddwr Strategol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol sydd â chyfrifoldeb am gynhwysiant, y mae cyfrifoldeb am gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn rhan o hwnnw. Fel y nodwyd yn y CCS, mae dau swyddog arweiniol yn Estyn sydd â thasg benodol i sicrhau bod Estyn yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb; un ar gyfer arolygu ac un ar gyfer polisi corfforaethol. Nod ein holl weithgareddau yw cyfrannu at Gymru fwy cyfartal, lle y gall pobl gyflawni'u potensial.

Byddwn yn parhau i gefnogi amgylchedd gweithio teg a chynhwysol trwy gyflawni'r camau yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a byddwn yn parhau i hyrwyddo a chefnogi lles staff trwy gamau sy'n cyd-fynd â chynnal achrediad y Safon Iechyd Corfforaethol ar lefel Arian. Trwy ein harolygiadau a'n gwaith arolwg, byddwn yn parhau i hyrwyddo cydraddoldeb a nodi a lledaenu arfer dda ar draws y sectorau addysg perthnasol.

Mae sawl un o gyhoeddiadau Estyn eisoes yn cyfeirio at ein hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys y canlynol:

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-2019
Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol

## 3 Cynllun Cydraddoldeb Strategol – Cynnydd a gweithgareddau yn erbyn amcanion 2018-2019

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Camau Gweithredu</th><th>Nodwedd benodol gysylltiedig</th></tr>
<tr><td colspan="3">Amcan 1: Sicrhau bod hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol a chael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch yn cael eu hymgorffori a'u hamlygu ar draws Estyn</td></tr>
<tr><td>1.2</td><td>2018-2019<br><br>Mae staff yn parhau i gael hyfforddiant ar fanylion ac ar yr agweddau ymarferol ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith y penderfyniadau a wneir a'r polisïau a roddir ar waith ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, ac yn gweithredu yn unol â gwerthoedd Estyn.<br><br>Gofynnir i staff newydd am syniadau am sut gall Estyn ymgorffori gwerthoedd cyfartal ac amrywiol yn y sefydliad ymhellach ac am weithgareddau y gellir ymgymryd â nhw i godi ymwybyddiaeth a mynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldeb.<br><br>Fe wnaethom gymryd rhan yn "Monitro perffformiad cyrff rhestredig yn erbyn Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru" a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Nod y prosiect hwn oedd:<br><br>• Casglu tystiolaeth gan bob corff cyhoeddus rhestredig am eu gwaith mewn meysydd penodol i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol<br>• Cynnig enghreifftiau arfer dda o'r gwaith a wnaed gan gyrff cyhoeddus rhestredig<br>• Dwyn ynghyd gasgliadau ar gynnydd mewn meysydd penodol, o fewn y sectorau<br>• Ysgrifennu adroddiad a chynnig argymhellion ar sut i gyflawni rhagor o gynnydd<br><br>Bydd y briff o'r prosiect hwn yn helpu i lywio Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 Estyn a sicrhau cydymffurfiaeth ag arfer orau, a datblygu prosesau'n barhaus.</td><td>Pob un</td></tr>
</table>

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 1. 3 | **2018-2019**<br>Mynychodd yr holl newydd-ddyfodiaid raglen ymsefydlu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, yn cynnwys cyflwyniad i'r Ddeddf Cydraddoldeb a sut mae Estyn yn cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'n ofynnol i staff newydd gwblhau cyrsiau hyfforddiant ar Ragfarn Ddiarwybod ac Amrywiaeth a Chynhwysiant. | Pob un |
| 1.4 | **2018-2019**<br>Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn eitem sefydlog ar agenda'r Grŵp Iechyd, Diogelwch, Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu. Mae hyn yn sicrhau y caiff cyfleoedd eu creu i drafod ac ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ystyried arfer orau. Archwilio syniadau am gyfleoedd i hyrwyddo digwyddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth e.e. diwrnodau cenedlaethol. | **Pob un** |
| 1.10 ac 1.11 | Rhoddodd erthyglau a ysgrifennwyd ar gyfer cylchlythyr mewnol y staff yn 2018-2019 gyhoeddusrwydd i'r canlynol:<br>• Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu Hiliol<br>• Wythnos Gwrth-fwlio<br>• Diwrnod Cofio'r Holocost<br>Gellir gweld yr erthyglau hyn yn Atodiad 1<br>Yn ein Hwythnos Datblygiad Proffesiynol ym mis Rhagfyr, rhoddodd cynrychiolwyr Stonewall Cymru gyflwyniad ar hunaniaeth o ran rhywedd. Yn y cyflwyniad, amlygont nifer cynyddol y rhyweddau y mae pobl yn eu defnyddio, a'r materion a'r pryderon cysylltiedig ynghylch derbyn yn gymdeithasol a chynhwysiant. Trafodont y dieithrwch y mae rhai pobl yn ei deimlo a'r ffyrdd y gellir helpu pobl ifanc, yn arbennig, i deimlo'u bod yn cael eu derbyn, yn enwedig o fewn amgylchedd yr ysgol.<br>**2018-2019**<br>Caiff newidiadau i'n dulliau cyfathrebu ac adrodd eu hadolygu'n barhaus i wirio'u bod yn cydymffurfio â chanllawiau hygyrchedd. Cwblhaom y datrysiadau lefel A ac AA er mwyn bodloni 2.1 Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We (WCAG) (mae 2.1 yn diffinio sut i wneud cynnwys y We yn fwy hygyrch i bobl ag anableddau). | **Hil ac ethnigrwydd**<br>**Pob un**<br>**Hil ac ethnigrwydd**<br><br>**Cydraddoldeb rhywiol**<br><br>**Anabledd** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 1.10 ac 1.11 parhad | Mae hygyrchedd yn cwmpasu amrywiaeth eang o anableddau, gan gynnwys anableddau'r golwg, y clyw, corfforol, llefaredd, gwybyddol, iaith, dysgu a niwrolegol. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn gwneud cynnwys y We yn haws ei ddefnyddio gan unigolion hŷn y mae eu galluoedd yn newid oherwydd heneiddio, gan wella defnyddioldeb i ddefnyddwyr yn gyffredinol yn aml. | **Anabledd Oedran** |
| **Amcan 2: Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu** | | |
| 2.1 | **2018-2019**<br><br>Rydym yn parhau i roi cyhoeddusrwydd, ar ein mewnrwyd, i wybodaeth ddefnyddiol a hyrwyddo digwyddiadau sy'n ymwneud â grwpiau nodweddion gwarchodedig amrywiol:<br><br>• Calendr digwyddiadau PRISM ar gyfer 2019<br>• Penwythnos Mawr Pride Cymru<br>• Mae PRISM yn chwarae rhan yn yr Wythnos Cydraddoldeb<br>• Newyddion a chrynodeb rheolaidd PRISM | **Cydraddoldeb rhywiol Rhywioldeb** |
| 2.2 | **2018-2019**<br><br>Mae Estyn wedi hyrwyddo digwyddiadau a pholisïau cyfle cyfartal trwy gyhoeddiadau ar Fewnrwyd, hysbysfyrddau a thrwy gylchlythyr Estyn – gweler 1.4 a 2.1 uchod.<br><br>Cwblhaodd 14 aelod o staff y Gwasanaethau Corfforaethol hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl i gynnig lefel arall o gymorth i staff sy'n teimlo'u bod yn wynebu gwahaniaethu.<br><br>Mae Canllaw Cyflogaeth Estyn yn datgan bod disgwyl i bob aelod staff ymddwyn yn unol â'n polisi cyfle cyfartal.  Os bydd cyflogai wedi gweithredu yn groes i'n Polisi Cyfle Cyfartal, gallai wynebu camau disgyblu. | **Pob un**<br><br>**Pob un**<br><br>**Pob un** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 2.3 | **2018-2019**<br><br>Mae cydweithio'n parhau rhwng Estyn a rhwydweithiau nodweddion gwarchodedig Llywodraeth Cymru, gan roi cyfleoedd i staff Estyn ymuno â'r grwpiau hyn, gan fynychu digwyddiadau, codi ymwybyddiaeth a rhoi cymorth. Mae Estyn yn sefydliad cymharol fach, gyda chyfran fawr o staff yn gweithio gartref. Mae trefnu unrhyw fath o grŵp ffocws neu grŵp cymorth yn broblem oherwydd lleoliad a phrinder amser. Mae gallu cysylltu â grwpiau LIC neu Swyddfa Archwilio Cymru yn ffordd ddefnyddiol o fynd i'r afael â'r rhwystr hwn. | **Pob un** |
| **Amcan 3: Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol** | | |
| 3.2 | **2018-2019**<br><br>Rydym yn parhau i fonitro amrywiaeth ein gweithlu trwy ein holiadur monitro a byddwn yn ystyried pa mor aml mae hyn yn cael ei gyflawni. Ni all Estyn, fel cyflogwr cymharol fach, gofnodi unrhyw ganlyniadau sy'n llai na 5 mewn nifer, felly mae gwerth y data canlyniadol braidd yn gyfyngedig. Gellir gweld canlyniadau 2018-2019 ar gyfer pob categori a ddadansoddwyd trwy ddilyn y dolenni canlynol:<br><br>• Data'r gweithlu<br>• Data ymadawyr<br>• Data recriwtio<br>• Data hyfforddiant | **Pob un** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 3.3 | **2018-2019**<br><br>Fe wnaethom barhau i weithredu ein Polisi Gweithio Hyblyg, sy'n darparu ystod eang o opsiynau gweithio e.e. darparu hyblygrwydd i gynorthwyo â rheoli ymrwymiadau teuluol. | **Rhyw<br>Beichiogrwydd a Mamolaeth<br>Anabledd** |
| 3.5 | **2018-2019**<br><br>Rhaid i'r holl staff ymgymryd ag asesiad o'u gweithfan yn rheolaidd. Yn 2018-2019, darparwyd offer ergonomig i 13 aelod staff i helpu i liniaru effaith y problemau roeddent yn eu cael â'u gweithfan.<br><br>Wrth ddewis llety, mae'r staff sy'n trefnu'r llety yn sicrhau eu bod wedi ystyried y staff hynny sydd â gofynion penodol o ran llety. Trwy ddefnyddio porth ar-lein, mae gan aelodau staff broffil sy'n amlygu unrhyw ofynion arbennig sydd ganddynt a chaiff eu gwestai eu trefnu yn unol â'r gofynion hyn. | **Anabledd** |
| 3.6 | **2018-2019**<br><br>Caiff yr adborth o ddigwyddiadau allanol ei fonitro'n barhaus i asesu cyfleusterau er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch ar gyfer pob cyfranogwr. Fel yn y blynyddoedd diwethaf, ni chodwyd unrhyw faterion gan gyfranogwyr yn eu gwerthusiad ar ôl y digwyddiad, ond byddwn yn parhau i fonitro i sicrhau cydymffurfio parhaus. | **Anabledd<br>Hil** |
| 3.7 | **2018-2019**<br><br>Parheir i ddarparu'r holiaduron i ddysgwyr/rhieni mewn 26 iaith, ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau i'w cyfieithu i unrhyw iaith arall yn 2018-2019. | **Hil** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| **Amcan 4: Sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei ymgorffori yn ein prosesau recriwtio a dethol** | | |
| 4.1 | **2018-2019**<br><br>Diweddarwyd ein canllawiau recriwtio, ac roeddent yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd ystyried cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob cam o’r broses recriwtio. Caiff prosesau a thechnegau dethol eu hadolygu’n rheolaidd i sicrhau bod rhagfarn guddiedig yn cael ei dileu a sicrhau na chaiff ymgeiswyr cymwys eu hatal rhag ymuno â’r sefydliad.<br><br>Mae pawb sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau fel llunio rhestr fer a chyfweld yn ymgymryd â hyfforddiant mewn recriwtio a dethol a rhagfarn ddiarwybod, ac maent yn ymwybodol o’r ddeddfwriaeth berthnasol a phwysigrwydd osgoi gwahaniaethu. | **Pob un**<br><br>**Pob un** |
| 4.2 | **2018-2019**<br><br>Ar hyn o bryd, mae Estyn yn Hyderus o ran Anabledd ar lefel 1, a’i nod yw symud ymlaen i fod yn Arweinydd Hyderus o ran Anabledd, gan ddangos ein hymrwymiad i gefnogi staff anabl. Bydd ymgeiswyr anabl sy’n ymgeisio o dan y Cynllun Cyfweld Gwarantedig ac sy’n bodloni’r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd a hysbysebir yn cael cynnig cyfweliad gwarantedig. Gellir gwneud addasiadau rhesymol i gyfweliadau a/neu ganolfannau asesu hefyd. Mae Estyn yn gwneud yn siwr bod y gweithle yn hygyrch, yn gynhwysol a bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i recriwtio a chadw staff. | **Anabledd** |
| 4.3 | **2018-2019**<br><br>Rydym yn parhau i ofyn i bob ymgeisydd am swydd lenwi ein ffurflen monitro cyfle cyfartal. Rydym yn parhau i fonitro a dadansoddi gwybodaeth recriwtio, archwilio rhesymau am unrhyw ddeilliannau gwahaniaethol, a chymryd camau adferol, lle bo hynny’n briodol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu a’n bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal. | **Pob un** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 4.4 | **2018-2019**<br><br>Yn ogystal â hysbysebu swyddi gwag ar wefan recriwtio'r Gwasanaeth Sifil, yn y wasg genedlaethol ac mewn cyhoeddiadau eraill sy'n benodol i swyddi, rydym yn parhau i sicrhau bod ein hysbysebion yn cyrraedd cynulleidfa eang sy'n cynnwys yr holl grwpiau nodweddion gwarchodedig trwy anfon ein swyddi gwag at:<br><br>• Race Equality First<br>• Anabledd Cymru<br>• Cyngor Cydraddoldeb Hiliol y Cymoedd<br>• Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru<br>• Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe<br>• Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru<br>• Rhwydwaith i Fenywod Ethnig Lleiafrifol<br>• Disabled Workers Cooperative.<br><br>Yn 2018-2019, fe wnaethom gynnal 6 ymgyrch recriwtio.<br><br>Caiff swyddi gwag eu hysbysebu'n allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd maes eang ac amrywiol o ddarpar ymgeiswyr sy'n meddu ar y medrau proffesiynol angenrheidiol. Rhaid i'r cyfryngau a ddewisir i roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd swydd a'r amser a ganiateir ar gyfer hysbysebu fod yn addas ar gyfer denu maes digon cryf ac amrywiol o ymgeiswyr, gan ystyried natur y rôl a'r farchnad swyddi berthnasol. | **Pob un** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 4.5 | **2018-2019**<br><br>Ni chawsom unrhyw gŵynion yn datgan bod ein swydd ddisgrifiadau a'n hysbysebion swyddi yn gwahaniaethu ar sail oedran. Nid yw ffurflenni cais yn gofyn i ymgeiswyr ddatgan eu hoedran. Diwygiwyd ein ffurflenni cais i wella cynwysoldeb:<br><br>• Dyn<br>• Menyw<br>• Mae'n well gennyf beidio â dweud<br>• Os hoffech ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch<br><br>Gwneir penodiadau trwy gystadleuaeth agored a seilir y broses ddethol ar asesiad yn erbyn cymwyseddau'r swydd, ni waeth am unrhyw nodweddion personol. | **Pob un** |
| 4.5<br>parhad | O dan Bolisi Gweithio'n Hyblyg Estyn, gwnaeth 4 aelod staff gais i weithio'n hyblyg (caiff penderfyniadau i ganiatáu gweithio oriau rhan-amser eu hasesu yn erbyn meini prawf angen y busnes). Yn 2018-2019, cymeradwywyd pob un ohonynt.<br><br>Mae Estyn yn gyflogwr cyfle cyfartal, ac yn ymroi i sicrhau bod ein sefydliad yn rhydd rhag unrhyw wahaniaethu, erledigaeth, bwlio nac aflonyddu anghyfreithlon neu annheg. Mae ein Polisi Cyfle Cyfartal yn amlinellu'n fanwl ein dull o sicrhau ein bod yn bodloni'r ymrwymiad hwn. Mae'r CCS yn amlinellu amcanion cydraddoldeb Estyn a sut bydd Estyn yn parhau i roi cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhrif ffrwd pob agwedd ar ein gwaith. | **Pob un** |

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Camau Gweithredu</th><th>Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig</th></tr>
<tr><td colspan="3">Amcan 5: Sicrhau bod ein prosesau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol</td></tr>
<tr><td>5.2</td><td>2018-2019<br><br>Rydym wedi ymgorffori'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi, yn ein proses gaffael a'n contractau cyflenwyr. Bwriad y cod hwn yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus wedi'u cyflogi'n foesegol ac yn unol â llythyren ac ysbryd deddfau'r DU, yr UE a deddfau rhyngwladol. Mae'r cod yn cwmpasu'r materion cyflogaeth canlynol:<br><br>• Caethwasiaeth fodern a thorri hawliau dynol<br>• Cosbrestru<br>• Hunangyflogaeth ffug<br>• Defnydd annheg o gynlluniau mantell a chontractau dim oriau<br>• Talu'r Cyflog Byw<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig canllawiau ategol sy'n cynnwys adnoddau a chyngor i helpu rhoi'r ymrwymiadau ar waith ac fe'u defnyddiwyd yn Estyn i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Cod.</td><td>Pob un</td></tr>
</table>

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| | Mae manylebau ein tendrau ein cynnwys y canlynol<br><br>***"13 Caffael moesegol mewn cadwyni cyflenwi***<br><br>*13.1 Mae Estyn wedi mabwysiadu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gaffael Moesegol mewn cadwyni cyflenwi. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn cael eu cyflwyno ledled Cymru gan weithlu sy'n cael ei drin yn gyfreithlon, yn deg ac yn ddiogel, ac yn cael ei wobrwyo'n dda.*<br><br>*13.2 Mae'r Cod hwn yn cynnwys ymrwymiad i ystyried hyrwyddo'r Cyflog Byw mewn contractau perthnasol.*<br><br>*Gall tystiolaeth o arferion gweithio teg gynnwys:*<br><br>o *polisi ar gyflog teg a chyfartal, sy'n cynnwys ymrwymiad i dalu o leiaf y Cyflog Byw i'r holl staff*<br>o *sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad ar gael i'r holl staff*<br>o *hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl staff, ni waeth beth yw eu hoedran, rhywedd, anabledd, crefydd, hil a chyfeiriadedd rhywiol*<br>o *cyflogaeth sefydlog, osgoi'r defnydd amhriodol o gontractau dim oriau a chwmnïau cyflogaeth fantell*<br><br>*Er mwyn sicrhau ansawdd gwasanaeth o safon uchel yn y contract hwn, disgwyliwn i gontractwyr ymddwyn yn debyg o ran arferion gweithio moesegol."*<br><br>Gwnaethom sicrhau y datblygwyd ein presenoldeb cydraddoldeb ymhellach wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau, trwy ddefnyddio arfer orau a welir mewn sefydliadau eraill. Sicrhaodd caffael trwy fframweithiau a phyrth a gynhelir gan y Llywodraeth ein bod yn manteisio ar brotocolau sector cyhoeddus cytunedig wrth gymhwyso cydraddoldeb i'r broses gontractio. | **Pob un** |

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Camau Gweithredu</th><th>Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig</th></tr>
<tr><td colspan="3">Amcan 6: Trwy ein harolygiadau a'n gwaith arolwg, hyrwyddo cydraddoldeb a nodi arfer dda a lledaenu'r arfer dda honno ar draws y sectorau addysg perthnasol</td></tr>
<tr><td>6.1</td><td>Cyhoeddom nifer o adroddiadau thematig ac arweiniad atodol, gan gynnwys argymhellion i Awdurdodau Lleol, Darparwyr a Llywodraeth Leol. Roedd yr adroddiadau thematig a'r arweiniad canlynol yn cynnwys materion cydraddoldeb ac amrywiaeth:<br><br>Parodrwydd ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol<br><br>Argymhelliad<br><br>Dylai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac ysgolion:<br><br>A1 Sicrhau eu bod yn cael yr holl ddeunyddiau arweiniad a hyfforddiant a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a chefnogi staff i weithredu'r diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn effeithiol<br><br>Gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru<br><br>Argymhellion<br><br>Dylai awdurdodau lleol:<br><br>A1 Ymgynghori'n ystyrlon gyda phobl ifanc, fel eu bod yn gallu dylanwadu ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau sydd ar gael iddynt ar lefel leol, a'u harfarnu<br>A2 Darparu mannau diogel i bobl ifanc mewn ardaloedd lleol fel bod ganddynt fynediad at wasanaethau, a gweithgareddau, sy'n cynorthwyo'u datblygiad fel unigolion, ac fel aelodau o'u cymuned leol<br>A3 Gwneud yn siŵr bod cynlluniau strategol yn cynnwys blaenoriaethau clir wedi'u llywio gan wybodaeth leol ar gyfer gwasanaethau sy'n cynorthwyo pobl ifan<br>A4 Gwneud yn siŵr bod adrannau awdurdod lleol a chyrff eraill yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, sy'n mynd i'r afael â'u hanghenion</td><td>Anabledd<br><br>Oedran</td></tr>
</table>

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 6.1 parhad | **Dylai darparwyr:**<br><br>A5 Wneud yn siŵr bod eu gwasanaethau yn galluogi pobl ifanc i nodi drostyn nhw eu hunain beth yw eu diddordebau, eu nodau, a’u hanghenion<br>A6 Gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a rhanbarthol i wella mynediad at yr ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc<br>A7 Gwneud yn siŵr bod safonau ac egwyddorion gwaith ieuenctid proffesiynol yn cael eu defnyddio gan weithwyr yn yr holl brosiectau gwasanaeth cymorth ieuenctid<br><br>**Dylai Llywodraeth Cymru:**<br><br>A8 Ddarparu’r sylfaen polisi ar gyfer ymgorffori gwaith ieuenctid, fel ffordd o weithio gyda phobl ifanc, yn yr holl wasanaethau<br>A9 Egluro’r defnydd o’r derminoleg ‘gwaith ieuenctid’, ‘gwasanaeth ieuenctid’, a ‘gwasanaethau cymorth ieuenctid’ yng Nghymru er mwyn darparu iaith a ddeellir yn gyffredinol ar gyfer datblygu a chyflawni polisi<br>A10 Sefydlu ffyrdd o ddwyn awdurdodau lleol a’u partneriaid i gyfrif am ansawdd, ystod a’r mathau o wasanaethau cymorth ieuenctid a ddarparant yn eu hardal<br>A11 Cynnwys cymhwyster, hyfforddiant a datblygiad parhaus gweithwyr ieuenctid yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol Cymru | **Oedran** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
| --- | --- | --- |
| 6.1 parhad | Ansawdd addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc sy'n gysylltiedig â thimau troseddau ieuenctid<br><br>**Argymhellion**<br><br>**Dylai Awdurdodau Lleol a Thimau Troseddau Ieuenctid:**<br><br>A1 Asesu'r cynnydd y mae pobl ifanc yn ei wneud wrth ddatblygu medrau meddal, fel hyder, medrau cymdeithasol, a hunanbarch, ac wrth wella eu medrau llythrennedd a rhifedd<br>A2 Sicrhau bod cydlynydd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth (addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) penodedig gan yr holl wasanaethau<br>A3 Sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu hawl i addysg mewn modd amserol, ac adrodd i fyrddau rheoli ynglŷn â'r cyfnod amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)<br>A4 Datblygu strategaethau effeithiol sy'n cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd<br>A5 Arfarnu ansawdd, effeithiolrwydd ac effaith eu gwasanaeth yn well er mwyn gwella ansawdd, a llywio cynllunio strategol er mwyn gwella cyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc<br>A6 Ehangu ystod aelodau anstatudol y bwrdd rheoli i gynnwys darparwyr addysg a hyfforddiant lleol allweddol | **Oedran** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| | Effaith y Mesur Dysgu a Sgiliau ar ddysgwyr sy’n agored i niwed<br><br>**Argymhellion**<br><br>**Dylai ysgolion, colegau addysg bellach, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wella cyrhaeddiad dysgwyr sy’n agored i niwed fel ei fod yn cyd-fynd yn fwy â’u cyfoedion, trwy:**<br><br>A1 Olrhain a monitro cyflawniadau dysgwyr sy’n agored i niwed yn fanylach, a dadansoddi data ar grwpiau o ddysgwyr agored i niwed yn well<br>A2 Gwella eu presenoldeb a sicrhau bod ganddynt fynediad at gymorth wedi’i dargedu<br>A3 Gwerthuso’r cwricwlwm er mwyn ystyried y graddau y mae’n diwallu anghenion dysgwyr sy’n agored i niwed<br><br>**Datblygiadau anghenion dysgu ychwanegol**<br><br>Trwy waith thematig penodol a thrwy nodi a rhannu arfer diddorol sy’n dod i’r amlwg yn ystod arolygiadau, rydym yn parhau i helpu i weithredu’r diwygiadau i ADY. Mae amrywiaeth o astudiaethau achos perthnasol ar ein gwefan.<br><br>Rydym yn ymgymryd ag un arolygiad thematig neu fwy bob blwyddyn i ddarparu cyngor a rhannu arfer effeithiol sy’n cefnogi dysgwyr agored i niwed a datblygu ysgolion cryf a chynhwysol. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddom ein hadroddiad ar Barodrwydd ysgolion ar gyfer diwygiadau anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r adroddiad yn archwilio’r graddau y mae ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn paratoi i ateb gofynion y ddeddf newydd, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2018). Mae hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau thematig i gefnogi’r diwygiadau i ADY o ganlyniad i’r Ddeddf ADY. Rydym yn gweithio’n gyson â phartneriaid i ddatblygu arweiniad mwy penodol i arolygwyr. Er enghraifft, yn 2018-2019, datblygom arweiniad atodol yn gysylltiedig â disgyblion â Nam ar y Clyw ac Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. | **Anabledd**<br><br>**Oedran**<br><br>**Anabledd** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| | Ym Medi 2018, creom grŵp o arolygwyr arbenigol â phrofiad o gynorthwyo dysgwyr ag AAA a byddwn yn defnyddio'r arolygwyr hyn mewn arolygiadau thematig perthnasol ac arolygiadau ysgolion sydd â dosbarthiadau arbenigol neu garfanau sylweddol o ddisgyblion ag AAA. | |
| **Amcan 7: Gofyn am adborth yn rheolaidd ar ein gweithredoedd a gynlluniwyd ac a gyflawnwyd, i fodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb** | | |
| 7.1 | Ymgysylltom â'r holl newydd-ddyfodiaid, gan eu cyflwyno i'r CCS, ac ymgynghori â nhw ynglŷn â chamau gweithredu i fodloni gofynion y Ddeddf lle roeddent yn cael eu cyflogi o'r blaen.<br><br>Cynhaliom ymgynghoriadau gyda'r holl newydd-ddyfodiaid yn ystod y flwyddyn am eu hargraffiadau cyntaf o Estyn pan gyrhaeddont ar gyfer cyfweliad ac o'u hychydig ddiwrnodau cyntaf, i nodi ymhle y gallwn wella cynhwysiant.<br><br>Mae gan Estyn bresenoldeb ar Twitter a Facebook, lle'r ydym yn gofyn barn rhanddeiliaid am weithgarwch Estyn a newidiadau i'r broses arolygu fel y byddant yn digwydd. | **Pob un** |
| **Amcan 8: Gwella'r modd yr ydym yn mesur p'un a ydym yn bodloni ein hamcanion cydraddoldeb a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ein gwaith yn y dyfodol** | | |
| 8.3 | **2018-2019**<br><br>Fe wnaethom ymgysylltu â'r sector mewn cyfarfodydd fforymau rhanddeiliaid i ddatblygu trefniadau arolygu newydd a'u peilota, yn unol â'r sectorau ôl-16 eraill. Mae ein digwyddiadau i randdeiliaid yn rhoi cyfle i gadw i fyny ag ystod y ddarpariaeth yn y partneriaethau er mwyn ein cynorthwyo i gynllunio arolygiadau yn y dyfodol. Fe wnaethom roi hyfforddiant i arolygwyr cymheiriaid ac enwebeion ar y trefniadau peilot newydd yn nhymor yr hydref 2018, a chynhaliom arolygiad peilot dysgu oedolion ddechrau tymor y gwanwyn 2019. | **Oedran** |

| Cyf | Camau Gweithredu | Nodwedd warchodedig benodol gysylltiedig |
|---|---|---|
| 8.6 | **2018-2019**<br><br>Bu’r Grŵp Iechyd, Diogelwch, Lles Cyflogeion ac Ymgysylltu yn ystyried canlyniadau Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac yn edrych ar gamau gweithredu y gellid bwrw ymlaen â nhw yn sgil y canlyniad. Dyma’r camau gweithredu y penderfynwyd arnynt:<br><br>• Gwella ymgysylltu ag aelodau staff dros dro<br>• Llunio cynllun gweithredu i wella’r ffordd y caiff ymddygiadau amhriodol eu rheoli | **Pob un** |

## 4 Crynodeb

**4.1** Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan Estyn o ran cyflawni’r amcanion a amlinellir yn y CCS, a bydd parhau i fonitro’r gweithgarwch hwn yn sicrhau y caiff y cynnydd hwn ei gynnal.

**4.2** Gan ddefnyddio’r canlyniadau o’n gwaith Monitro Cyflogaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, unrhyw arfer orau newydd a nodir a sylwadau a geir gan randdeiliaid, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cynllun gweithredu yn addas i’r diben ac yn bodloni’r amgylchedd cyfnewidiol y mae'n gysylltiedig ag ef.

## Atodiad 1: Erthyglau a ymddangosodd yng nghylchlythyr mewnol Estyn

Mae Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu Hiliol yn cael ei gynnal yn flynyddol ar 21 Mawrth. Mae'n nodi diwrnod ym 1960 pan gafodd 69 o bobl eu saethu a'u lladd gan yr heddlu mewn gwrthdystiad heddychlon yn Ne Africa yn erbyn "deddfau trwydded" apartheid.

Mae'r diwrnod yn ein hatgoffa bod gwahaniaethu hiliol ac ethnig yn digwydd yn ddyddiol, gan rwystro cynnydd i filiynau o bobl ledled y byd. Mae sawl ffurf i hiliaeth ac anoddefgarwch – o warafun egwyddorion sylfaenol cydraddoldeb i bobl, i hybu casineb ethnig, bob un ohonynt yn gallu dinistrio bywydau. Mae'r frwydr yn erbyn hiliaeth yn fater o flaenoriaeth i bob cymuned ac mae'r Cenhedloedd Unedig wedi gofidio am y mater hwn ers ei sefydlu.

Sut gallwch chi gyfrannu?

- Dysgwch ragor am ragfarnau, gwahaniaethu a hiliaeth gudd
- Meddyliwch am ffyrdd y gallwch chi fod yn ymddwyn gyda rhagfarn a chwilio am ffyrdd o newid eich agwedd a'ch ymddygiad
- Cefnogwch sefydliadau sy'n gweithio i amddiffyn rhag gwahaniaethu
- Trefnwch neu cymerwch ran mewn gweithgaredd meithrin cymuned neu godi ymwybyddiaeth ar Ddiwrnod Trechu Hiliaeth

**Wythnos Gwrth-fwlio – 12-16 Tachwedd 2018**

Mae llawer o'r galwadau ffôn gaiff Estyn ynghylch diogelu yn ymwneud â bwlio. Yn aml, mae rhieni a gofalwyr yn cysylltu ag Estyn gan nad ydynt yn teimlo bod sefyllfa yn gwella o gwbl ac maen nhw'n daer angen cyngor. Mae cefnogi mentrau fel yr Wythnos Gwrth-fwlio yn ffordd y gallwn godi ymwybyddiaeth o'r mater a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion.

Mae'r Wythnos Gwrth-fwlio eleni yn canolbwyntio ar barch. Mae'r Anti-Bullying Alliance a SafeToNet wedi datblygu adnoddau addysgu rhad ac am ddim i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i ganolbwyntio ar thema parch. Hefyd, maent yn cynnal:

Diwrnod Hosanau Gwahanol (12 Tachwedd), gan annog myfyrwyr i wisgo hosanau gwahanol i'r ysgol i ddangos eu cefnogaeth a chodi arian, a

Diwrnod 'Stop Speak Support' ar seiber-fwlio (15 Tachwedd) gyda chefnogaeth y Sefydliad Brenhinol

Roedd y Diwrnod Gwrth-fwlio yn annog pobl i wisgo hosanau gwahanol i ddangos eu cefnogaeth ar gyfer dileu bwlio a hyrwyddo ymddygiad sy'n dangos parch.

Yng ngwir ysbryd Estyn, roedd staff yn barod iawn i gymryd rhan yn y diwrnod hynod deilwng hwn. Gwelwyd hosanau streipïog, hosanau smotiog, hosanau Nadoligaidd, hosanau anifeiliaid a dewisodd Jonathan ei ddewis o hosanau jig-so a Tigger - "nid yw pawb yn ffitio'n berffaith ond mae pawb yn rhyfeddol o unigryw".

Diolch i Zoe T, Andy, Lottie, Delyth, Dai, Sara P, Jonathan C a Katie T am gymryd rhan yn y digwyddiad arwyddocaol hwn.



Cynhelir Diwrnod Cofio'r Holocost yn flynyddol ar 27 Ionawr, ac mae'n ddiwrnod i gofio'r miliynau o bobl a laddwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yn yr hil-laddiadau yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Mae'n ddiwrnod i gofio gwersi o'r gorffennol a chydnabod nad yw hil-laddiad yn digwydd ar ei ben ei hun – mae'n broses barhaus, sy'n gallu digwydd os na chaiff gwahaniaethu, hiliaeth a chasineb eu ffrwyno a'u hatal.

Bob blwyddyn, mae miloedd o weithgareddau'n cael eu cynnal ar gyfer Diwrnod Cofio'r Holocost, gan ddwyn pobl o bob cefndir ynghyd i ddysgu'r gwersi o'r gorffennol mewn ffyrdd creadigol, myfyriol ac ysbrydoledig. O ysgolion i lyfrgelloedd, o weithleoedd i awdurdodau lleol. Mae gweithgareddau Diwrnod Cofio'r Holocost yn cynnig cyfle gwirioneddol i anrhydeddu profiadau'r bobl y mae'r Holocost a hil-laddiad wedi effeithio arnynt, ac i ni herio'n hunain i weithio er dyfodol gwell a mwy diogel. Os hoffech ddysgu rhagor am Ddiwrnod Cofio'r Holocost, ewch i'w gwefan.